

Bod yn glwb neu'n gymdeithas

Diben clybiau a chymdeithasau

Cynnwys

Paratoi sesiynau	3
Amcanion y sesiwn	3
Amcanion dysgu	3
Dull	3
Adnoddau sydd eu hangen	3
Amseru a awgrymir	3
Cynnal y sesiwn	5
Rhagarweiniad	5
Torri'r iâ	5
Adborth/Trafodaeth	5
Gwaith grŵp	6

Cynllunio sesiynau

Sgiliau dan sylw
Cyfathrebu llafar
Hun-ymwybyddiae

Paratoi sesiynau

Amcanion y sesiwn

Dyma'r sesiwn gyntaf a awgrymir yn rhaglen hyfforddi swyddogion clybiau a chymdeithasau. Ei fwriad yw rhoi pethau mewn cyd-destun drwy annog cyfranogwyr i rannu eu barn a'ch caniatáu chi i ddeall y rheiny byddwch chi'n eu hyfforddi ychydig yn well. Mae'n bosib na fydd llawer o'r cyfranogwyr yn adnabod ei gilydd, felly mae'n bwysig rhoi cyfle iddyn nhw ddod i adnabod ei gilydd ar y dechrau.

Amcanion dysgu

Erbyn diwedd y sesiwn hon bydd y rheiny sy'n cymryd rhan yn gallu:

- Canfod gwerth clybiau a chymdeithasau i fyfyrwyr
- Esbonio'r rhesymau mae Undeb y Myfyrwyr yn cefnogi clybiau a chymdeithasau.

Dull

Bydd yr ymarfer yn cynnwys cyflwyniad byr yn y sesiwn lawn, gwaith mewn parau, tanio syniadau, gwaith grŵp ac adborth yn y sesiwn lawn.

Adnoddau sydd eu hangen

- Siart troi a phennau
- Copi o gyfansoddiad a / neu ddatganiad o genhadaeth yr Undeb

Amseru a awgrymir

Rhagarweiniad	5 munud
Gwaith pâr	5 munud
Adrodd yn ôl	10 munud
Tanio syniadau	5 munud
Gwaith grŵp	15 munud
Adrodd yn ôl / trafodaeth yn y sesiwn lawn	15 munud
Crynodeb	5munud

Cyfanswm amser = 60 munud

Cynnal y sesiwn



Cynnal y sesiwn

Rhagarweiniad

1. Dechreuwch drwy gyflwyno'ch hun, gan roi braslun o nodau ac amcanion dysgu'r sesiwn. Esboniwch sut bydd y sesiwn yn cael ei chynnal, h.y. y dulliau y byddwch chi'n eu defnyddio a pha sgiliau byddwch chi'n eu datblygu.
2. Gan ei bod yn bosib mai dyma'r hyfforddiant cyntaf y bydd rhai o'r cyfranogwyr wedi'i fynychu, mae'n arbennig o bwysig bod yn bositif / brwdfrydig a phwysleisio bod yr arddull hyfforddi'n gyfranogol.

Torri'r îâ

3. Rhannwch y grwpiau'n barau. Sicrhewch nad ydyn nhw mewn pâr â rhywun o'r un clwb neu gymdeithas. Os oes nifer anwastad o bobl, mae'n iawn bod ag un grŵp o dri.
4. Gofynnwch iddyn nhw gyflwyno eu hunain a'u partner. Gofynnwch iddyn nhw ddweud wrth ei gilydd pam ymunon nhw a pham daethon nhw'n weithgar o fewn eu cymdeithas neu glwb.

Adborth/Trafodaeth

5. Ar ôl 5 munud, gofynnwch iddyn nhw stopio. Gofynnwch i bob pâr gyflwyno eu hunain ac esbonio pam y bu iddyn nhw ymuno â'u clwb neu gymdeithas.
6. Ysgrifennwch bob rheswm newydd ar ddarn o bapur siart troi.
7. Ar ôl i bob pâr siarad, tynnwch sylw at:
 - a) Y ffaith bod amrywiaeth eang o wahanol resymau gan bobl dros ymuno. Gall y rhestr gynnwys:
 - er mwyn cwrdd â phobl / gwneud ffrindiau y tu allan i fy nghwrs / neuadd breswyl
 - am fy mod i am barhau i chwarae pêl-droed/badminton, a.y.b.
 - am fy mod i am ddysgu chwarae pêl-droed a.y.b. yn well
 - am fod gen i ddiddordeb mewn hanes / hawliau anifeiliaid, a.y.b.
 - am fod gan y clwb neu gymdeithas enw da am drefnu nosweithiau cymdeithasol da, a.y.b.

Ni ddylai hyn fod yn syndod am fod corff y myfyrwyr mor amrywiol, ond mae'n pwysleisio gwerth clybiau a chymdeithasau mewn dod â grwpiau amrywiol o bobl at ei gilydd.

- b) Felly hefyd y ffaith bod y rhan fwyaf ohonyn nhw wedi dewis yr un rheswm (naill ai "i greu ffrindiau" neu "i barhau i chwarae pêl-droed" a.y.b.). Mynegwch rywfaint o syndod a gofynnwch i'r grŵp weiddi rhesymau eraill pam y byddai myfyrwyr am ymuno a chlwb neu gymdeithas. Ychwanegwch y rhain at y siart troi.
8. Dewch â'r sesiwn adborth i ben drwy osod y darn papur siart troi ar y wal, a dweud ei bod yn amlwg bod clybiau a chymdeithasau'n eithriadol o bwysig mewn dod â myfyrwyr o bob math o gefndir a chyrсияu at ei gilydd. Am fod llawer o lasfyfyrwyr yn ymuno yn ystod wythnos y glas, maen nhw'n galluogi myfyrwyr i wneud ffrindiau ag eraill sydd â'r un diddordebau.
 9. Dwedwch wrth y grŵp eich bod chi am iddyn nhw awgrymu manteision eraill i fyfyrwyr ac i'r Undeb sydd ymwneud â chlybiau a chymdeithasau.
 10. Ysgrifennwch 'Manteision' ar frig darn o bapur siart troi a 'Myfyrwyr ac 'Undebau Myfyrwyr' oddi tano (rhannwch y siart troi'n ddau er hwyluso'r broses).

11. Gofynnwch iddyn nhw weiddi unrhyw fanteision, gan sicrhau eich bod chi'n diolch i bawb am eu cyfraniad. Anogwch nhw i feddwl am y manteision i swyddogion clybiau a chymdeithasau yn ogystal â'r aelodau.
12. Gynted y bydd rhywun yn dweud "mae'n datblygu sgiliau" diolchwch iddyn nhw, ysgrifennwch hyn ac anogwch y grŵp i ychwanegu sgiliau penodol at y rhestr. Tynnwch sylw at y gwahaniaeth rhwng sgiliau trosglwyddadwy (e.e. gwaith tîm, arweinyddiaeth) a sgiliau eraill (e.e. sgiliau mewn camp arbennig).
13. Os nad oes unrhyw un yn cyfeirio at ddatblygu sgiliau, yna gofynnwch i'r grŵp "beth am ddatblygu sgiliau?" ac ychwanegwch hyn at y rhestr ar ôl iddyn nhw gytuno i hynny.
14. Mae'n debygol y bydd y grŵp yn ei chael yn anodd nodi llawer o fuddion i Undeb y Myfyrwyr. Unwaith y bydd seibiant, dewch â'r drafodaeth i ben a dwedwch eich bod am iddyn nhw weithio mewn grwpiau llai i ystyried hyn mewn mwy o fanylder.

Gwaith grŵp

15. Rhannwch nhw'n grwpiau o 5-7 a gofynnwch iddyn nhw drafod pam eu bod nhw'n credu bod Undebau Myfyrwyr yn rhoi cymorth i glybiau a chymdeithasau (ceisiwch ganfod cyfanswm yr arian sydd wedi cael ei neilltuo ar gyfer clybiau a chymdeithasau yn y flwyddyn gyfredol).
16. Dwedwch wrthyn nhw fod ganddyn nhw 15 munud i drafod hyn (gallwch docio'r amser yn ôl i 10 munud os yw amser yn brin) ac y byddwch chi'n dod ynghyd i adrodd yn ôl yn nes ymlaen.
17. Rhowch ychydig funudau i bob grŵp setlo, yna ewch i weld pob un yn ei dro i sicrhau eu bod yn ymgymryd â'r dasg. Os bydd grŵp yn ei chael yn anodd, gofynnwch iddyn nhw "Beth yw diben Undeb y Myfyrwyr"

Macadam House
275 Gray's Inn Road
Llundain WC1X 8QB
f 0845 5210 262
f 020 7380 0794
e nusuk@nus.org.uk
www.nus.org.uk

ucm

undeb cenedlaethol y **myfyrwyr**